



ACM18:Dyfroedd Arfordirol Ynys Dewi



Ynys Dewi o'r dwyrain

**Disgrifiad Cryno**

Caiff Ynys Dewi ei gwahanu oddi wrth pen gorllewinol Penrhyn Tyddewi gan Swnt Dewi. Mae'r ardal yn cynnwys yr Ynys, yr arfordir a'r dyfroedd gerllaw tu allan i'r Swnt. Mae'r rhain yn agored i'r môr agored a'r gwyntoedd o'r de orllewin. Nid oes unrhyw anheddiad ac mae'r ardal yn wyllt ac yn anghysbell gyda'r bywyd gwyllt ffyniannus sy'n dod gyda hyn yn warchodfa natur â golygfeydd morwrol gwych. Fodd bynnag, caiff ei defnyddio yn ystod y prif dymor ar gyfer teithiau bywyd gwyllt ac mae caiciâu yn hwylio o amgylch yr ynys.

**Nodweddion Allweddol**

- Dominyddir Ynys Dewi gan frigiadau Carn Llundain a Charnysgubor, ac arfordiroedd creigiog sydd yma'n bennaf gyda chlogwyni danheddog, ogofau, bwâu ac ynysigau gydag un traeth yn unig ar yr ochr orllewinol.
- Mae'r ynys yn agored iawn i fôr agored a gwyntoedd y de orllewin ac mae wedi ei gwahanu oddi wrth y prif dir gan swnt llanwol ac felly mae yna ymdeimlad cryf o ynysu a gwylltineb.
- Mae de'r ynys, brigiadau ac ymyl garw'r arfordir wedi eu gorchuddio â gweundir,

glaswelltir arfordirol a rhedyn.

- Mae yna gaeau afreolaidd cyfyngedig wedi eu cau i mewn gan waliau cerrig.
- Cyfyngir y ffurf adeileidig i un fferm a reolir gan yr RSPB, yn rhannol ar gyfer nifer o ymwelwyr a reolir yn llym, sy'n cyrraedd un llwyfan lanio.
- Mae yna deithiau cwch bywyd gwyllt mewn cychod gwynt anhyblyg ac mae caiaciau yn teithio o amgylch Ynys Dewi yn ystod y prif dymor gan ostwng y llonyddwch.
- Mae yna gyfoeth o fywyd gwyllt a hithau'n warchodfa natur gan gynnwys nifer o adar y môr fel gweilch y penwaig, carfilod, ffwlmariad yn ogystal â llamhidyddion a morloi.
- Mae yna olygfeydd godidog a phanoramig o'r ynys i'r môr agored, y Bishops and Clerks ac at y prif dir, er enghraifft at Garn Llidi.

#### Nodweddion Ffisegol

Mae arfordir dwyreiniol Ynys Dewi yn cynnwys dilyniant Cyngambriaidd i Ordoficaidd ffawtiog o dyffiau folcanig, mewnwthiadau, tywodfeini a sialau. Mae pentiroedd arfordirol a ddominyddir gan Carn Llundain 134m UDO a hefyd Carnysgubor 95m UDO a chlogwyni, yn cynrychioli litholegau mwy gwydn mewnwthiadau a thyffiau, rhai'n cyrraedd 120m i'r gorllewin, tra bod y bae llydan ar yr arfordir gorllewinol wedi ei gerfio i mewn i dywodfaen. Mae creigiau tanddwr ac ynysigau bach yn ymylu'r morlin sydd hefyd yn cynnwys ogofau. I'r de o Ynys Dewi, mae cadwyn o ynysigau bach a bwâu a ffurfiwyd o graig fewnwthiol asid yn ymestyn tua'r gogledd ddwyrain - de orllewin (Ynys Cantwr (52m UDO), Midland, Ynys Bery (70m UDO), Meini Duon), a hefyd Ynys Eilun 25m UDO). Mae ardaloedd rhynglanw'r ynys a'r ynysigau yn lannau creigiog agored (95%) gyda childraethau tywodlyd bach yn unig. Mae'r gwynt a'r tonnau'n erydu ar ffurf sgrafelliad, athreuliad a symudiadau hydrolog.

Mae llawr bas (<30m) y môr o raeau tywodlyd ar oled graddol (1-10<sup>0</sup>) tua'r gorllewin. Mae'r moroedd yn agored i bwysau uchel gan y gwynt a'r tonnau. Mae cerhyntau llanwol yn gryf (3-5 milltir fôr), wedi eu gosod tua'r gogledd a'r de. Mae yna ddyfroedd garw a throlifau o amgylch yr ynysigau a'r creigiau deheuol (Ynys Bery, Midland Gap).

Daw'r môr ac ardaloedd rhynglanw dan ACA Sir Benfro Forol. Dynodwyd Ynys Dewi yn Warchodfa Natur Genedlaethol ac yn SoDdGA. Dynodwyd y clogwyni, y glaswelltir a'r gweundir arfordirol fel AGA Ynys Dewi a Phenrhyn Tyddewi ac maen nhw hefyd yn Ardaloedd sy'n Bwysig ar gyfer Adar fel a ddiffiniwyd gan yr RSPB. Mae Ynys Dewi yn warchodfa bwysig sy'n eiddo i'r RSPB - gellir gweld palod, brain coesgoch, morloi, carfilod, dolffiniaid a llamhidyddion. Mae morloi'n geni eu rhai bach ar y traeth yn Abermawr ac yn defnyddio ogofau'r mor.

Mae'r ynys yn gyfuniad o weundir a glaswelltir asid sych ar hyd copa'r clogwyni, i'r de o'r ynys ac ar frigiadau fel Carn Llundain. Yn bennaf, mae gweddill yr ynys yn gyfuniad o gaeau porfa brwyn sy'n cael eu pori gan wartheg a defaid fel rhan o'r broses rheoli i gefnogi bywyd gwyllt e.e. brain coesgoch.

#### Dylanwad diwylliannol

Gwelir enghreifftiau o lwybrau a chysylltiadau hanesyddol yn y cysylltiadau â Chynhanes, Norsaidd a Christnogaeth Gynnar. Mae Ynys Dewi wedi cadw tystiolaeth o anheddiad dynol sy'n mynd yn ôl 4,000 o flynyddoedd. Mae gan Carn Llundain a Charn Ysgubor garneddau ar eu copaon sy'n ymddangos fel tomenni claddu tal o'r Oes Efydd Gynnar. Mae'n anodd dychmygu safleoedd claddu mwy godidog, yn wynebu gwyntoedd Môr Iwerydd. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y galla'r caeau fod wedi eu gosod allan ar Ynys Dewi am y tro cyntaf yn yr Oes Efydd Gynnar/Ganol (*tua* 2100BC-1500BC), gan gynnal cymunedau'r ynys ar sail ffermydd a phentrefannau bach. Credir i gapel Sant Tyfanog gael ei leoli ar safle adeiladau Fferm Ynys Dewi; nodwyd beddau, archau o garreg a cherrig coffa, *tua* 1811-1963, a'r unig enghraifft sy'n wybyddus yw darn ac arno croes a deial haul endoredig. Mae tua saith llongdrylliad wedi eu cofnodi sy'n gorwedd ar arfordiroedd deheuol a de orllewinol yr ynys. Maen nhw'n cynnwys y stemar Hwngaraidd, Szent Istvan (1909), y Graffoe (1903) a'r Gerard (1929).

Mae'r ardal cymeriad morwedd hon yn rhannol o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Neilltuol Penrhyn Tyddewi ac Ynys Dewi. Ni ddynodwyd unrhyw henebion cofrestredig ar yr ynys.

Credid bod yr enw Saesneg, 'Ramsey' naill ai'n enw Llychlynwr, 'Hrafn's isle', neu'n golygu garllleg

gwyllt. Yn ogystal â'r enw Cymraeg, Ynys Dewi, mae yna ddau enw arall hefyd, sef Ynys Dewi Sant neu Ynys Tyfanog. Yn ôl chwedloniaeth, mae 20,000 o saint wedi eu claddu ar Ynys Dewi.

Mae'r unig anheddiad ar yr ynys ar yr arfordir dwyreiniol - fferm, a ddefnyddir ar hyn o bryd gan yr RSPB. Mae'r caeau porfa wedi eu cau i mewn gan waliau carreg afreolaidd.

Defnyddir y dyfroedd gan weithredwyr cychod teithiau bywyd gwyllt sy'n mynd ag ymwelwyr ar y dyfroedd arfordirol a rhai allan at yr ynys ddwywaith y dydd ar gyfer teithiau tywys heb dywysydd a theithiau tywys yn y prif dymor. Mae maint y cychod yn cyfyngu ar nifer yr ymwelwyr. Mae'r dyfroedd yn boblogaidd gyda chychod mordeithio modur a hwyliau, cychod dydd a chiacau, gyda'r dyfroedd yn fwy diogel, yn gyffredinol, o fewn hanner milltir i'r ynys na'r Swnt. Maen nhw'n deifio ac yn pysgota o'r môr oddi ar gychod oddi ar gogledd-ddwyrain Ynys Dewi. Fel gwarchodfa bywyd gwyllt sy'n eiddo i'r RSPB, mae yna ymchwil ar waith ar yr ynys.

Mae pysgota yn yr ardal yn cynnwys rhwydau wedi eu gosod, dal cimwch a chrancod mewn potiau a'r posibilrwydd o fân-dreillio estyllod. [Yn y gorffennol rhoddwyd trwydded Rownd 24 i'r ardal ar gyfer olew a nwy a gellir gwneud ceisiadau yn y dyfodol.](#)

#### Nodweddion esthetig, canfyddiadol a phrofiadol

Mae'r ynys a'r dyfroedd gerllaw ar raddfa fawr ac maen nhw'n agored gyda'r ynys yn agored iawn i wyntoedd y de orllewin a'r môr agored. Mae ganddi gymeriad anghysbell, llonydd, ynysig a gwyllt cryf yn enwedig ar yr ardaloedd sydd â llystyfiant lled-naturiol a'r arfordir. Mae yna olygfeydd godidog a phanoramig o'r ynys i'r môr agored, y Bishops and Clerks ac at y prif dir, er enghraifft at Garn Llidi. Y ffocws gweledol ar lefel y môr yw'r clogwyni danheddog, yr ynysigau a'r ogofau gyda chraig-ffurfiadau fel trwnc yr Eliffant yn ennyn diddordeb. Mae gweadau garw'r clogwyni a'r creigiau yn mynd law yn llaw gyda rhinweddau'r dŵr sy'n gallu bod yn arw mewn rhai amodau. Cyfoethogir amrywiaeth y morlin gan olygfeydd o forloi llwyd, adar môr niferus a, weithiau, llamhidyddion. Mae'r llonyddwch yn gostwng i raddau oherwydd y cychod gwynt anhyblyg a chychod eraill sy'n hwylio o amgylch yr ynys. Fodd bynnag, nid yw'r defnydd hwn yn tynnu'n sylweddol oddi ar yr harddwch naturiol, undod a chydbwysedd yn y darn hwn o ddŵr ac arfordir.

#### Buddion diwylliannol a gwasanaethau

Mae'r ardal yn cyfrannu'n sylweddol at wasanaethau hamdden ar ffurf hamdden forol, gan gynnwys teithiau bywyd gwyllt, at dreftadaeth naturiol ar ffurf y warchodfa natur forol gyda'i hanifeiliaid a'i hadar a'r arfordir sydd heb ei ddifetha, ac at wasanaethau diwylliannol ac ysbrydol mewn perthynas â'i diddordeb a'i nodweddion hanesyddol.

Rhesymau dros newid								
Crynodeb	Rhesymau allweddol dros newid							
<p>Erydiad arfordirol ynysigau creigiog. Mae cynllun rheoli'r traethlin yn dweud 'gwneud dim byd'.</p> <p>Mwy o ddefnydd gan weithredwyr teithiau cychod a defnyddwyr cychod eraill, gydag effaith ar lonyddwch ac, o bosib, ar fywyd gwyllt.</p> <p>Rheoli caeau ac ardaloedd lled-naturiol er mwyn cynnal bioamrywiaeth.</p>	<b>Rhinweddau Arbennig</b>	Prosesau naturiol/newid hinsawdd	Gwasgedd ymwelwyr	Defnydd morol - masnachol a physgota	Ynni'r tir mawr neu fwynau	Gwasgedd datblygiad	Newidiadau rheoli tir	Defnydd MOD
	Ysblander yr Arfordir							
	Ynysoedd							
	Amrywiaeth y Tirlun							
	Pellenigrwydd, Tawelwch a Diffeithwch							
	Daeareg Amrywiol							
	Cyfoeth Cynefinoedd a Bioamrywiaeth							
	Archeoleg Gyfoethog							
	Cymeriad Anheddiad Nodedig							
	Treftadaeth Ddiwylliannol							
	Mynediad i'r Parc							
	Lle i Anadlu							
	<b>Allwedd</b>							
Sensitifeddau allweddol								
Ffactorau sy'n cyfrannu at sensitifrwydd	Ffactorau sy'n tynnu wrth sensitifrwydd							
<p>Brigiadau amlwg a heb eu difetha Carn Llundain a Charnysgubor ac arfordiroedd creigiog yr ynys gyda chlogwyni danheddog, ogofau, bwâu ac ynysigau.</p> <p>Ymdeimlad cryf yr ynys o unigedd, pellenigrwydd, llonyddwch a gwylltineb gyda mynediad cyfyngedig iawn.</p> <p>Gwerth y Warchodfa Natur Genedlaethol ar gyfer gwarchod natur gan gynnwys adar, anifeiliaid a gweundir, glaswelltir arfordirol a rhedyn.</p> <p>Y patrwm o gaeau afreolaidd cyfyngedig wedi eu cau i mewn gan waliau cerrig.</p> <p>Y ffurf adeiledig cyfyngedig iawn h.y. un fferm wedi ei rheoli gan yr RSPB.</p> <p>Golygfeydd panoramig godidog i'r ynys ac oddi yno.</p>	<p>Mae yna deithiau cwch bywyd gwyllt mewn cychod gwynt anhyblyg ac mae caiciâu yn teithio o amgylch Ynys Dewi yn ystod y prif dymor gan ostwng y llonyddwch.</p>							

